

Drama

Amser - 1.5 awr

Atebwch DDAU gwestiwn.

Rhaid i chi ategu'ch atebion trwy roi enghreifftiau penodol.

1. Beth yw'r heriau posibl i ymarferwyr theatr wrth wneud gwaith safle-benodol? Cyfeiriwch at gynyrchiadau neu gwmnïau penodol yn enghreifftiau i ategu'ch ateb.
2. Gan gyfeirio at ddrama o'ch dewis, disgrifiwch sut y byddech yn mynd ati i gynllunio elfennau senograffig y cynhyrchiad (dylech ddisgrifio sut y mae testun y ddrama yn cysylltu â'r senograffeg, a dylech roi ystyriaeth i'r goleuo, y sain, y llwyfannu a'r dyluniad).
3. Trafodwch waith un o ddramodwyr yr ugeinfed ganrif.
4. Cyflwynwch drafodaeth naill ai ar gomedi, neu ar drasiedi fel *genre* theatr. Cyfeiriwch at ddramâu neu ddramodwyr penodol.
5. Trafodwch waith dau o ymarferwyr, neu o grwpiau neu gwmnïau theatr y mae gennych ddiddordeb yn eu gwaith. Disgrifiwch yr hyn sy'n arwyddocaol ac yn arbennig ynglŷn â'u dulliau.
6. *Genre* sy'n gwneud y gynulleidfa'n gyfranogwyr gweithredol yn y cynhyrchiad yw theatr trochi (*immersive*). Mae cynyrchiadau fel hyn yn aml yn caniatáu rhyddid i'r gynulleidfa symud fel y mynnant, a chael cyfle i brofi ennyd o berfformiad ar eu pen eu hunain neu gydag eraill. Ar gyfer cynyrchiadau o'r fath gallai fod angen gwahanol ddulliau o actio neu o hyfforddi actorion gan fod cyswllt â chynulleidfa yn aml yn uniongyrchol ac yn glos iawn. Disgrifiwch sut y byddech yn mynd ati i hyfforddi actorion, ac i baratoi perfformiad; pa ystyriaethau a dulliau ymarfer fyddech chi'n gallu eu defnyddio er mwyn gwneud y perfformiadau'n rhai llwyddiannus.